YSGOL PENRHYN-COCH

Urdd

Cafwyd sesiwn brysur yng nghwmni Mrs Eirian Dafis yn paratoi addurniadau Nadoligaidd. Diolch iddi am fod mor barod i ddod atom yn flynyddol.

Y dydd Llun canlynol cynhaliwyd parti Nadolig y plant. Cafwyd hwyl a sbri gyda ymweliad Mari Corn a oedd wedi teithio yr holl ffordd o'r America! Cafodd groeso twym galon gan y plantos a ganodd dwy garol iddi cyn ffarwelio â hi.

Llawer o ddiolch i gymdeithas y rhieni am yr holl baratoi.

Joio

Fel pob Nadolig arall rhaid cael ein ymweliad â'r Panto a'r sinema. Llond dau fws o blantos yn joio mas draw – clebran, canu, gwrando cyn dod nôl i'r ysgol i ginio Nadolig bendigedig Janice Morris ein cogyddes spesial. Roedd bron pob plât yn lâna'r pwdin 'dolig a gafodd y staff yn fendigedig. Diolch am y wledd a'r wên.